

Y Wennol


Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 9

Yn rhad ac am ddim

Rhagfyr 2021



Gerallt Gymro - Rhan 4

Gerallt Gymro Rhan 4

gan Rob Evans

Erbyn hyn yn y stori mae Gerallt a'r Archesgob wedi gorffen y daith o gwmpas Cymru er mwyn codi byddin i ymladd yn erbyn Saladin, y Groesgad. Byddech yn cofio bod Gerallt wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r frwydr ac roedd Brenin Harri II a Brenin Phillip o Ffrainc wedi dod i gytundeb i gydweithio. Ond yn union fel y sefyllfa'r dyddiau yma roedd anghytuno a ddoth y cytundeb rhyngddyn nhw i ben. Roedd Tywysog Richard wedi ochri efo Brenin Phillip yn erbyn Harri a doedd pethau

ddim yn dda. Ond mi wnaeth y fyddin groesi'r sianel a gwneud eu ffordd trwy Ffrainc ond ar y 6ed o Orffennaf 1189 mi wnaeth Harri farw ac roedd rhaid ailfeddwl. O ganlyniad i farwolaeth Harri doedd gan Gerallt ddim cefnogaeth ariannol a hefyd y teimlad oedd bydd Gerallt yn fwy o werth yn Lloegr. Cafodd o ei ryddhau o'i ymrwymiad. Yr un peth ddigwyddodd i Peter de Leia, esgob Tŷ Ddewi hefyd. Ond roedd pris ariannol i dalu am y rhyddhad - roedd rhaid i'r ddau gyfrannu at adeiladu Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi. Felly os ewch chi i'r Eglwys Gadeiriol anelwch at rannau hynaf yr eglwys a chofiwch pwy oedd wedi gwneud rhan o'r cyfrannu.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cyrhaeddodd Brenin Richard Iaf y Wlad Sanctaidd ym 1191 ac roedd llawer frwydr yn erbyn Saladin a'i luoedd. Mi wnaeth Richard drechu Saladin unwaith ac roedd y ddau yn parchu ei gilydd yn fawr iawn. Yn y diwedd daethon nhw i gytundeb ble roedd caniatâd i'r gwledydd Cristnogaeth cael mynediad i Jerwsalem a'r creiriau sanctaidd.

Yn y cyfamser roedd gan Gerallt uchelgais fawr a oedd yn llenwi ei fywyd am weddill ei oes. Roedd o am fod yn Esgob Tŷ Ddewi ond hefyd roedd o eisiau i holl esgobaethau Cymru ddod yn uniongyrchol yn atebol i'r Pab. Roedd hyn yn beth fawr i ofyn a doedd Brenin Lloegr na Archesgob Caergaint byth yn mynd i gytuno â'r syniad. Bydd y fath beth yn gwanhau'r gafael oedd gan Loegr dros Gymru. Ond yn y dyddiau hynny Y Pab oedd y bos, roedd pob brenin yn y gwledydd ffydd yn atebol i'r Pab. Roedd Gerallt wedi dod yn agos at wireddu ei freuddwyd pan wnaeth ei ewythr farw yn 1176 ond er mawr siom iddo aeth y swydd i Peter de Leia.

Roedd o wedi cael cynnig ar Esgobaeth Bangor yn y 1190au ond doedd hynny ddim yn ei blesio. Cafodd gynnig am esgobaeth Llandaf, ond na, Tŷ Ddewi roedd o eisiau. Cafodd gynnig dwy esgobaeth yn Iwerddon ond doedd y rheini ddim yn tycio chwaith er erbyn hyn roedd lawer o'i deulu yn byw yn y wlad. Os dach chi wedi bod yn dilyn y stori hyd yn hyn mi fydddech yn gwybod yn iawn pa mor benderfynol ac ystyfnig oedd Gerallt.

Mi wnaeth Peter de Leia farw ym 1198 ac yn syth roedd Gerallt yn brwydro am y swydd. Richard y 1af oedd y brenin ar ôl i Harri II farw ac roedd Richard yn gefnogol yn y dechrau yn tynnu sylw at ei frwdfrydedd am ddiwygio, ei dras a'r nifer o dywysogion Cymru yn ei deulu estynedig. Ar y wyneb roedd pethau yn edrych mor addawol ond ei uchelgais oedd y maen dramgwydd. Roedd creu archesgobaeth yng Nghymru a oedd yn atebol i Rufain yn rhywbeth na fydd unrhyw frenin yn cynorthwyo. Rhan o'r broblem oedd y nifer o bobl bwysig yng Nghymru oedd yn ei gefnogi.

Bu farw Brenin Richard ym 1199 ac, i ddechrau roedd yn edrych fel roedd Brenin John yn ei ffafrio, yn wir mi wnaeth o hysbysu Gerallt a dau aelod o'r siapter ei fod am ei dderbyn fel esgob Tŷ Ddewi ond roedd Archesgob Caergaint

yn bendant yn erbyn y syniad. Dim ond un dewis oedd gan Gerallt erbyn hyn a hynny oedd mynd at y dyn mwyaf pwerus yn yr Eglwys (ar y ddaear beth bynnag) Pab Innocent II. Doedd mynd ar daith i Rufain ddim yn bicnic, doedd o ddim mor syml â mynd i Faes Awyr Caerdydd a bwcio tocyn rhad. Roedd rhaid teithio ar ei ben ei hun trwy Ffrainc a rhan fwyaf o'r Eidal i gyrraedd Rhufain. Aeth yn ôl ac ymlaen tair gwaith ac, tuag at y diwedd roedd Gerallt a'r Pab wedi datblygu cyfeillgarwch tuag at ei gilydd. Ond roedd y Pab mewn sefyllfa amhosib. Ar ôl pum mlynedd cafodd Geoffrey de Henelawe ei apwyntio fel Esgob Tŷ Ddewi. Roedd ei frwydr ar ben ac ymddiswyddodd o archddiaconiaeth Aberhonddu, casglu ei holl lyfrau a mynd ar ei siwrne olaf i Lincoln a dyna ble oedd o am 35 o flynyddoedd tan iddo farw ym 1223, bron yn 80 oed.

Mae'n debyg roedd o yn isel ei ysbryd ac yn teimlo nad oedd o wedi cyflawni llawer yn ei fywyd ond, dyma ni 900 mlynedd yn ddiweddaraf yn dal yn ei gofio ac yn rhoi diolch iddo am ei lyfr pwysig sydd yn portreadu Cymru yn y flwyddyn 1188. Mae'r llyfr yn werth ei ddarllen ac yn dal ar gael - The Journey Through Wales/The Description of Wales a'r cyhoeddwyd yw Penguin Books.

Ffurio Grwpiau i Ddysgwyr yng Nghwm Nedd a Sgeti

Ar ddydd Sadwrn olaf mis Hydref roedd cyfarfod wedi cael ei drefnu yn lolf a 'Croeso' ym Mwmbwls er mwyn trafod y posibilrwydd o sefydlu grŵp o ddysgwyr yn yr ardal. Grŵp a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sgwrsio gyda'i gilydd yn Gymraeg - dyna pam dych chi'n dysgu ynte! Roedd y cyfarfod wedi cael ei drefnu gan SSIW - Say Something in Welsh ac roedd pedwar o ddysgwyr yna, dau o ardal Sgeti, un o Gwm Nedd ac un o Benmaen. Dim digon i ffurfio grŵp yn Sgeti na chwaith yng Nghwm Nedd ond mi oedd yn dangos bod diddordeb mewn sefydlu grŵp o'r fath. Er mwyn sicrhau nad oedd neb yn mynd ar goll ces i eu cyfeiriadau e-bost er mwyn iddyn nhw i gyd cael Y Wennol bob mis. Mi nes i dynnu eu sylw at y grŵp sydd yn cyfarfod yn Southgate yn wythnosol ac roedd dau yn mynd i ymuno â nhw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y peth pwysig oedd bod diddordeb mewn ffurfio grŵp yn ardal Sgeti a Chwm Nedd a'r unig beth sydd angen yw cael y neges allan i'r dysgwyr yn y ddwy le a thrïo eto yn y flwyddyn newydd.

Beth amdani? Os dach chi'n dysgu Cymraeg ac yn byw yn un o'r ardaloedd yna a wnewch chi gysylltu â fi os gwelwch yn dda -

bobwennol@ntlworld.com

er mwyn i mi weld cryfder y diddordeb.

Mae llawer o bosibiliadau o'ch blaen chi os dach chi'n aelod o grŵp ac yn cyfarfod yn rheolaidd mewn lle cyhoeddus:

1 Mae'n rhoi'r cyfle i chi siarad yn naturiol tu allan i'r dosbarth.

2 Byddech yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cael hwyl yn y Gymraeg.

3 Bydd pobl yn eich clywed chi'n siarad, rhai ohonyn nhw yn Gymry Cymraeg a fydd yn siŵr o ddod atoch chi a siarad efo chi.

4 Byddech yn cael cyfle i ymuno a'r cymdeithasau yn eich ardal.

5 Bydd eich geirfa yn datblygu a'ch hyder yn y Gymraeg yn tyfu.

6 Bydd y grŵp yna i ddenu dysgwyr newydd ac yn gymorth iddyn nhw yn eu tro.

Cysylltwch rŵan ac, os oes digon o ymateb' cawn ni gyfarfod i sefydlu grŵp!

Brawd Mawr yn eich Gwyllo

gan Val Richards

Rhaid eich bod chi wedi clywed am Big Brother, cymeriad dychmygol George Orwell yn ei nofel 1984. Roedd e'n arfer atgoffa pobl eu bod nhw o dan oruchwyliaeth gyson gan yr awdurdod gyda'r slogan "Big Brother is watching you". Er gwell neu er gwaeth, mae hyn bellach yn realiti i ni yn ein bywydau bob dydd.

Y dyddiau 'ma, mae camerâu teledu cylch cyfyng ym mhobman. Tsieina yw'r wlad sydd â'r mwyaf ac mae'r DU yn y bedwerydd safle gyda 6 miliwn hyd yn hyn. Y peth da yw y gall ymddygiadau gwrthgymdeithasol gael ei fonitro ac mae llawer o droseddau wedi cael eu datrys gan ddefnyddio'r dechnoleg hon. Fodd bynnag, gall hyn fod yn frawychus i nifer ohonon ni.

Byddwch yn ofalus! Dych chi byth yn bell o gamera p'un a ydych chi yn yr archfarchnad, mewn digwyddiad cyhoeddus neu mewn cyfarfod teuluol - felly, cadwch i wenu!



Beth dych chi'n meddwl am gamerau adnabod wyneb? Mae'n ymddangos bod eu defnydd yn ddadleuol iawn. Mewn gwirionedd, does dim ots 'da fi o gwbl. Fel fi, fyddwch chi hefyd yn barod i gario cerdyn adnabod neu bàs Cofid? Efallai y byddai hyn i gyd yn werth chweil os gallwn ni deimlo'n fwy diogel ar ein strydoedd neu fod yn llai agored i haint mewn lleoliadau adloniant.

Ar y llaw arall, dw i ddim yn hapus bod fy holl weithgareddau ar-lein yn cael eu dadansoddi. Heb fy nghaniatâd, mae fy lluniau a fy hoff gerddoriaeth yn cael eu trefnu mewn albymau ac mae cwcis yn olrhain fy mhob symudiadau mewn ymgais i werthu i fi gynhyrch sy'n briodol i fy anghenion. Mae'n debyg bod hyn i gyd yn glyfar, yn gyfleus ac yn ddifyr ond mae'n llawer rhy ymwithiol yn fy marn i!

Yn ogystal â hyn, dw i'n credu bod dyfeisiau electronig yn fy nghartref yn gallu spïo arna i. Oedd Alexa yn gwrando ar fy sgwrs ddiweddar? Yn rhyfedd, ces i hysbysebion ar unwaith am nwyddau yr oedd fy ngŵr a finnau wedi siarad amdanynt. Ydy hyn yn foeseogol? Dw i ddim yn credu felly.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiadau mewn technoleg wedi bod yn anhygoel. Beth nesaf, tybed? Ond mae un peth yn sicr – o hyn ymlaen, beth bynnag y byddwch chi'n ei wneud a ble bynnag y byddwch chi'n mynd - mae'r Brawd Mawr yn eich gwyllo.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Ferch o Gefn Ydfa

gan Nesta Humphreys

Ble mae Cefn Ydfa a pwy yw'r ferch?

Ffermdy o'r canol oesoedd yn ardal Llangynwyd ydy Cefn Ydfa. Mae'r ffermdy yno o hyd ond, wrth gwrs, mae e wedi newid ers y deunawfed ganrif pan oedd Ann Thomas, y Ferch o Gefn Ydfa, yn byw yno gyda'i rhieni cyfoethog. O ran diddordeb, roedd ei mam, Catherine, yn chwaer i Richard Price o Langeinor a gymerodd rhan amlwg yn y Chwyldro Americanaidd.

Yn ôl y chwedl, roedd Ann mewn cariad â Wil Hopcyn, töwr a bardd, ond roedd ei rhieni eisiau iddi briodi Anthony Maddocks, cyfreithiwr ac yn fwy addas yn eu barn nhw. Pan wrthododd Ann briodi Anthony, cafodd hi ei chloi yn ffermdy Cefn Ydfa nes iddi hi gytuno â'r briodas. I gadw mewn cysylltiad â Wil, ysgrifennodd hi lythyrau serch ato fe a rhodd y forwyn nhw mewn twll tu fewn i goeden dderwen. Pan ddarganfuwyd ei rhieni hynny, dechreuodd Ann ysgrifennu llythyrau gyda'i gwaed ar ddail goeden ger ffenest ei hystafell wely.

O'r diwedd cafodd Ann ei gorfodi i briodi Anthony yn 1726. Yn 1727 bu farw Ann o dorcalon ym mreichiau Wil, yn ôl y chwedl. Cafodd hi ei chladdu yng nghanell Eglwys Sant Cynwyd yn Llangynwyd.

Roedd Wil yn adnabyddus yn yr ardal ac mae pobl yn credu mai fe ysgrifennodd y geiriau i'r gân, Bugeilio'r Gwenith Gwyn, sy'n disgrifio cariad golledig ac sy'n boblogaidd iawn gyda chorau a chanwyr. Bu farw Wil yn 1741 a chafodd e ei gladdu ym mynwent Eglwys Llangynwyd.

Mae'r stori wedi bod yn destun llawer o lyfrau a gerddi ac mae'n chwarae rhan bwysig yn hanes yr ardal a phentref hanesyddol, Llangynwyd. Er sicrwydd bod y cymeriadau wedi byw yn Llangynwyd y pryd hynny, dyw rhai o bobl ddim yn credu'r stori. Beth amdanoch chi? Chwedl neu ffaieth?

Isod mae llun o Groes Hopcyn (neu'r Hen Groes) a chafodd ei godi yn 1929 i nodi deucanmlwyddiant marwolaeth y Ferch o Gefn Ydfa a'i rhamant gyda Wil Hopcyn. Mae'r Groes yn sefyll yng nghanol pentref Llangynwyd rhwng yr Eglwys a'r dafarn, Yr Hen Dŷ. Mae'r Groes yn coffáu'r stori serch a hefyd rhai o'r bobl sy'n

bwysig yn yr ardal am eu campau llenyddol a hanesyddol, sef Cadrawd, Llyfnwy a Brinley Richards, yr Archdderwydd yn y 1970s.



Croes Hopcyn



Eglwys Sant Cynwyd

Hefyd, uchod mae llun o Eglwys Sant Cynwyd, Llangynwyd a oedd yn bwysig iawn yn y canol oesoedd gyda chroglen a denodd bererinion o'r mynachlogydd yn Llanilltud Fawr a Margam. Mynwent Llangynwyd yw'r fynwent breifat fwyaf yn Ewrop.

Roedd castell Normanaidd yn y pentref tan y 13th canrif ond does dim llawer o olion yno erbyn hyn.

Wrth gwrs, mae cysylltiad y Fari Lwyd yn gryf yn y pentref a pob blwyddyn mae dathliad yr hen draddodiad yn y Tŷ Cornel, un o dafarn dai'r pentref.

Mae'r Hen Dŷ yn dyddio'n ôl i 1147 a'r hynaf yng Nghymru yn ôl rhai pobl. Mae Twm Morys, cerddor a bardd, yn dweud mai dyma oedd canolfan y traddodiad creu tribannau Morgannwg. Mae'r dafarn wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar a bellach yn dŷ bwyta nawr gyda bwyd hyfryd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Robin Goch

gan Shelagh Fishlock



Un o'r adar mwyaf poblogaidd y wlad yw'r robin goch. Fel aderyn sy'n aros yma trwy'r flwyddyn, mae'r cymeriad dewr a digywilydd yn ymweld â'n gerddi yn aml iawn, a wastad yn codi calon.

Dechreuwyd gweld y robin goch ar gardiau Nadolig yn y cyfnod Fictoraidd, gydag amlen yn ei big, achos roedd postmyn yn gwisgo côt goch lachar, ond mae chwedlau ac ofergoelion am yr aderyn yn bodoli ers milenia.

Roedd y Llychlynnaidd yn credu fod y robin goch yn gysylltiedig â Thor, ac yn eu hamddiffyn rhag stormydd a mellit. Yn ôl yr Americanwyr brodorol roedd e'n dywysydd ysbryd ac yn sanctaidd. I'r Celtiaid roedd e'n negesydd oddi wrth y meirw. Hyd at heddiw mae llawer o bobl yn credu bod y robin goch yn dod â neges o gysur oddi wrth yr annwyl ymadawedig. I'r gwrthwyneb â hynny, mae sawl ofergoeliaeth sy'n honni bod robin yn y tŷ yn proffwydo marwolaeth.

Mae sawl chwedl yn y traddodiad Cristnogol sy'n trio esbonio bron coch y robin. Efallai


cafodd e'i dasgu gan waed Iesu wrth drio tynnu hoelion neu ddrain allan o'i gorff ar y Groes. Yn ôl chwedl o Sir Benfro, cafodd ei losgi gan drio rhoi dŵr i'r eneidiau a oedd yn dioddef yn fflamau Uffern, sy'n esbonio enw arall am yr aderyn – bronrhuddyn.

Ond mae un stori arbennig am sut cafodd ei losgi sy'n rhan o Stori'r Geni. Yn ôl y chwedl hon, roedd robin goch yn eistedd mewn twll yn wal y stabl lle cafodd y baban Iesu'i eni. Roedd y noson yn dywyll ac yn oer, felly cyneuodd Joseff dân ar eu cyfer nhw. Roedd e a Mair wedi blino, ac wedi mynd i gysgu. Gwelodd y robin bod y tân bron â mynd allan, ac roedd e'n poeni am y baban. Casglodd e wellt a brigau mân a'u taflu ar y tân, wedyn ysgwyd ei adenydd i ennyn fflam.

Dihunodd Mair a gwelodd y robin. Roedd hi mor ddiolchgar am ei ymdrechion, ond sylweddolodd bod yr aderyn bach wedi cael ei losgi gan y fflamau.

"O hyn ymlaen," meddai hi, "bydd dy fron di'n goch, i gofio i ti helpu'r baban Iesu ar noson ei eni. Dim jyst Robin bydd dy enw di, ond Robin Goch."

Anhreg Nadolig



Nid fy mod i'n meddwl am funud bod chi wedi anghofio ond bydd llyfr Dr Elin Jones yn syniad ardderchog fel rhywbeth i roi yn eich hosan Nadolig!

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Cinio Nadolig

Mae'n fis Rhagfyr ac mae'r Nadolig ar y trothwy. Ydych chi'n barod? Mae'n rhaid prynu cardiau Nadolig, anrhegion a meddwl am beth i gael i ginio.

Wrth gwrs yr un peth mae rhan fwyaf o bobl yn cael, pob blwyddyn. Beth dach chi'n mynd i gael? Cinio traddodiadol efo twrci, tatws rhost, pannas mewn parmesan, moron a sbrowts? Neu a ydych am gael rhywbeth hollol wahanol?

Efallai byddwch yn mynd allan am bryd o fwyd, mae llawer yn gwneud hynny'r dyddiau yma. Gadewch i mi wybod sut dach chi'n dathlu eich Nadolig.

Ar y trothwy - on the doorstep

Rhan fwyaf o bobl – most people

Traddodiadol – traditional

pannas – parsnips

Nadolig Gwyn

A ydych chi'n breuddwydio am Nadolig gwyn? Mi oedd Bing Crosby yndoedd. Beth? Pwy yw Bing Crosby? Roedd o'n boblogaidd iawn pan o'n i'n ifanc. Mae'n braf gweld Nadolig gwyn ar gerdyn Nadolig ond mae'n rhaid i chi lapio'n gynnes yn yr eira a chadw i symud. Dach chi'n hoffi mynd ar sled yn ffŵl pelt i lawr llethr? Mae'n rhaid bod yn ofalus rhag mynd o flaen pobl eraill neu byddech i gyd yn disgyn mewn pentwr yn yr eira.

Mae chwarae yn yr eira yn hwyl ac mae pawb yn chwerthin. A ydych chi'n edrych ymlaen at yr eira?

Breuddwydio – to dream

Poblogaidd – popular

Lapio – to wrap

Llethr – slope

Disgyn mewn pentwr – fall in a heap

Anrhegion yn y pnawn

Pan o'n i'n blentyn roeddwn i'n byw mewn rheithordy mawr yn sir Fôn. Roedd Mam yn brysur dros ben ar ddiwrnod Nadolig a ninnau'n cael cinio swmpus. Roedden ni'n cael agor ein hosanau peth cyntaf yn y bore ond roedd yr anrhegion mawr yn cael eu hagog ar ôl i ni gael cinio. Roedd yr anrhegion mawr dan glo yn y lolfa ac roedden ni ar dân eisio gwybod beth oedd yna i ni. Llawer gwaith roedden ni'n trio'r drws ond roedd wedi ei gloi bob tro. Doedd dim iws i ni frysio bwyta ein cinio achos roedd rhaid i ni helpu golchi'r llestri cyn i ni gael mynd i'r lolfa.

O'r diwedd roedd y llestri wedi eu golchi, sychu ac yn ôl ar y silffoedd a dyma ni yn rhedeg at ddrws y lolfa. Roedd Dad yna yn barod a dim ond y fo oedd yn gwybod y gair cyfrin i agor y drws. Mae o'n sefyll yna ac yn gofyn "Ydych chi'n barod?" "Ydan!" dyn ni'n gweiddi ac mae o'n dweud y geiriau "Abracadabra" a throï'r handlen. A wyddoch chi be? Roedd y drws yn agor a dyma ni yn rhuthro i mewn!

Braf iawn cael tad sydd yn gallu gwneud magic!

Rheithordy – rectory

Swmpus – large

Lolfa – lounge

Dan glo – locked away

Gair cyfrin – secret word

Wyddoch chi be? – do you know what?

Rhuthro i mewn – to rush in

Beth amdanoch ch? Sut Nadolig byddwch chi'n cael? Gadewch i mi wybod!

bobwennol@ntlworld.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

I need your help!

I know that some of the articles in this newsletter are difficult to read and I am trying to have articles that suit everybody.

The most effective way for me to publish articles that suit you is, quite simply for you to write them.

This will benefit you in that I will go through everything and together we can produce an article that you can be proud of.

Using the language that you have learned so far is the best way to consolidate and move on to higher things.

Together we can do great things!

Why not have a go!

Improving your Welsh

Whichever way you have chosen to learn Welsh you will benefit greatly from reading. The little pieces on the previous page will provide you with a small challenge - there may be a word or two which you don't understand but your brain probably has a good idea of the meaning because of the context of the sentence. That is how we all learnt our first language. Your parents didn't sit you down in front of a blackboard and explain to you all about tenses of verbs and suchlike. It all just came naturally.

You could restrict your learning to the particular course you are using but that would just be a theoretical experience. The sooner you start to use whatever knowledge you have accumulated then the sooner everything fits into place.

Never forget that the process of learning is a progressive thing. If you don't have the challenge of new things to learn then you just stay in the same place. You need to do challenging things.

Fortunately learning a language is not like learning rock climbing. Learning a language does not put you in any great danger by accepting a challenge.

Your biggest challenge will be when you are faced with having to have a conversation for real and in Welsh. Accepting smaller challenges and

getting used to them will make that bigger challenge less painful.

What are these smaller challenges?

To Read

1) Make a point of heading for Tudalen y Dechreuwyd and read every item. Ask yourself if you have fully understood it. What words were you unsure of? Make a note of those words in your mind.

2) Read the pieces again the next day and you will find that you feel more comfortable. That is when you will realise that words you had not come across have been put in your subconscious memory.

3) When you feel totally comfortable with that page have a go at some of the other articles but don't expect to understand at the same level. It will come but it takes time and perseverance.

To Write

1) Writing gives you more time to think about what you want to say and how you want to say it. One day you will be faced with the challenge of having a real conversation and you will feel great pressure because your brain will be working overtime in trying to get words on to the tip of your tongue.

2) That pressure will be greatly reduced if you have been used to writing because you will have got used to using the words you have learned on your course and also words which you have discovered by writing.

3) Writing is something that can be enjoyed and the more you write, the more progress you make. You will also be so pleased if you were to see that in print. And that is where the Wennol comes in, not only does it give you the opportunity to read Welsh but it also gives you the opportunity to get it published. I will make sure that it is correct.

4) So I want some little pieces for Tudalen y Dechreuwyd and what I want you to do is introduce and say a bit about yourselves. And that is something you did right at the start and it should be really easy for you.

And it saves me a lot of thinking too!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Podlediadau



Beth am wneud yn siwr eich bod chi'n gwranddo ar o leiaf un o bodlediadau Radio Cymru bob mis? Mae rhywun wedi mynd i'r traferth o ddewis darnau allan o rhaglenni sydd yn hawdd i ddeall ac yn ddifyr ac mi fydd gwranddo arnyn nhw yn reolaidd yn help mawr i chi ac efallai yn annog chi i diwnio mewn i Radio Cymru pob dydd.

Y mwyaf dach chi'n gwranddo ar sgysiau y mwyaf dach chi'n dod yn fwy cyfforddus ac yn hyderys yn eich Cymraeg. Dyma cyfeiriad podlediad Pigion y Ddysgwyr 5ed o Dachwedd:

<https://www.bbc.co.uk/programmes/pob2frk1>

Unwaith mae ar eich sgrîn pwyswch ar 'Mwy' uwchben y gair 'Lawrlwythiad' a byddwch yn gweld disgrifiad y darllediad a hefyd geirfa cyfleus. Mae'r gwybodaeth hyn ddim ond ar gael cyn i chi wneud y lawrlwythiad felly, i ddechrau pwyswch ar 'Gwranddo Nawr'

Ym mhodlediad heddiw mae chwe chlip:

- 1) Stori am rywun yn cyfieithu llyfr o'r Gymraeg i Sbaeneg
- 2) Cadw eich planhigion tŷ yn iach dros y gaeaf
- 3) Prynu a gwerthu pethau ail law ar y we.
- 4) Merch yn sôn am seiclo ym Moroco
- 5) Merch a'i thaid yn siarad am yr amgylchedd
- 6) Dyn sydd wedi derbyn un o brif wobrwon Cymdeithas Frenhinol Cymru (Y Royal Welsh)

Dim ond 17 munud sydd ar y podlediad – trîwch wrando arni bob dydd achos mi fydd un arall wythnos nesaf. Does dim rhaid i chi ddeall popeth yn berffaith, does dim arholiad ar y diwedd. Ond os dach chi'n gwneud hyn bob wythnos ochr wrth ochr efo'ch cyrsiau byddwch yn dysgu yn naturiol ac yn gyflymach.

Iaith Sathredig

gan Glyn Churchill



“Mae o ar gontract gyda ni”; “Be wyt ti’n mynd i watchio heno?”

Basa rhai siaradwyr Cymraeg ddim yn rhy hapus pan maen nhw'n darllen neu glywed brawddegau fel hyn. Mae 'na rai Piwritanaidd iaith sy'n credu eu bod hi'n hollol annerbyniol i ddefnyddio geiriau Saesneg o fewn yr iaith. Hefyd bod 'na rai dysgwyr sydd ddim yn hoffi clywed Cymry Cymraeg yn gwneud yr un peth.

Er gwaethaf hyn mewn gwirionedd, mae ieithyddion yn cytuno mai dyma rywbeth sy'n gyffredin iawn o fewn y rhan fwyaf o ieithoedd. Pan mae pobl Saesneg yn siarad, maent yn defnyddio geiriau sydd wedi benthyg o ieithoedd eraill yn eithaf aml; Er enghraifft: ‘fiancé’, ‘genre’, ‘canoe’, ‘chocolate’, ‘viola’, ‘pyjamas’. Yn y De rydach yn dŵad ar draws siaradwyr Saesneg sydd yn defnyddio geirfa Gymraeg fel ‘cwtsh’ (cuddle), Nan (Nain), a ‘cot’ (Cwt).

Hefyd, dydy hi ddim yn anghyffredin pan ydach chi'n sgwrsio i anghofio geiriau. Yn Saesneg mae 'na ymadroddion fel ‘thingy’ a ‘whats it’, sydd wedi cael eu defnyddio gan bobl yn lle'r gair cywir pan maent yn methu cofio'r gair addas. Felly, pan mae siaradwyr Cymraeg yn sgwrsio mae'n hollol ddealladwy iddynt ddisodli'r gair Gymraeg gyda gair Saesneg sydd â'r un ystyr, yn enwedig os ydy o'n osgoi methiant cyfathrebu. Mewn gwirionedd, dyma strategaeth sy'n ddefnyddiol dros ben yn fy mhrofiad i fel dysgwr. Fel arfer mae siaradwyr Cymraeg yn gefnogol ac yn cydymdeimlo pan mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith efo nhw. Maen nhw'n tueddu i anwybyddu dewisiadau iaith anghywir ac ambell waith yn eich cynorthwyo gan gynnig gair Gymraeg addas hyd yn oed.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Wrth gwrs, mae 'na rai sydd yn aelod o'r 'we don't say that' brigade ond dw i'n meddwl eu bod nhw'n brin iawn.

Mewn sefyllfa gyfathrebol mae 'na thri beth fydd yn dylanwadu ar ein dewisiadau iaith addas, sef cyd-destun, bwriad ac eich cynulleidfa (y fath o berson sydd yn gwrando arnoch neu yn darllen eich dogfen ysgrifenedig). Mewn sefyllfaoedd ffurfiol er enghraifft fel llys cyfreithiol, baswn ni'n disgwyl sgysiau sydd yn cael eu defnyddio i fod yn gywir ac yn addas. Ond os ydy cyfreithiwr isio esbonio rhywbeth wrth ei gleient sydd ddim yn gyfarwydd ag iaith soffistigedig, ella byddant yn defnyddio termau Saesneg er mwyn gwneud yn siŵr bod y client yn dallt. Ar y llaw arall os oes 'na sgws rhwng ffrindiau nid oes ots tasai eu hiaith ddim yn hollol 'cywir' yn fy marn i.

Mewn gwirionedd mae pob iaith yn esblygu trwy'r amser ac mae be sy'n anaddas neu yn annerbyniol i un genhedlaeth yn mynd yn dderbyniol i'r un nesa. Mae'n werth cofio pan fydd yr iaith yn methu newid a datblygu, bydd yn farw.


Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Tachwedd 2021

Sgwrs ar Zoom gan Dr Elain Price

Nid Sianel Gyffredin Mohoni!

Hanes Sefydlu S4C



Mae Elain yn darlithio yn Adran Cyfryngau a Chyfathrebu Prifysgol Abertawe. Teitl y sgwrs ydy teitl y llyfr a ysgrifennodd Elain yn 2016, a'r testun oedd yn rhan o'i astudiaeth ar gyfer PhD. Roedd ymchwil Elain yn eang, yn cynnwys archifau a chyfweliadau lluosog.

Esboniodd Elain bod, yn y 1960s, lle ar gael ar setiau teledu ar gyfer pedwaredd sianel ond roedd y lle yn wag, felly yng Nghymru roedd galwadau i ddefnyddio'r lle ar gyfer sianel i ddarlledu rhaglenni Cymraeg. Ar y pryd roedd rhai rhaglenni Cymraeg ar y BBC ond doedd yr

amser darlledu ddim yn gyfleus. Yn y 1970s, roedd HTV yn darlledu rhai rhaglenni Cymraeg ar amserau mwy cyfleus, ond ro'n nhw yn lle rhaglenni Saesneg a doedd hynny ddim yn boblogaidd i bobl ddi-Gymraeg. Felly doedd neb yn hapus gyda'r sefyllfa ac roedd y 1970s yn gyfnod o brotestiadau i gael sianel Gymraeg.

Cyn yr Etholiad Cyffredinol yn 1979, addawodd y Ceidwadwyr i sefydlu sianel Gymraeg ond pan enillon nhw'r etholiad, newidion nhw eu meddwl. Ar ôl i Gwynfor Evans figwth i ymptydio dros y sefyllfa yn 1980, gwnaeth y llywodraeth tro bedol a dechreuodd S4C ddarlledu ym mis Tachwedd 1980.

Dwedodd Elain bod y cyfnod rhwng 1981 a 1985 yn gyfnod pwysig a chyffrous achos yr heriau i sefydlu a rhedeg y sianel newydd, S4C. Ble i ddechrau heb ddim adnoddau - dim swyddfa, dim staff. Pa fath o raglenni oedd angen ac o ble? Cafodd Owen Edwards ei benodi fel Prif Swyddog a dechreuodd e a'i dîm wynebu'r heriau. I ddechrau, penderfynon nhw ddarlledu am 22 awr yr wythnos - 10 awr o raglenni gan y BBC, 7-9 awr gan HTV a'r gweddill gan gwmnïau annibynnol. Un o'r cwmnïau annibynnol oedd y cwmni a chynhyrchodd gartwnau fel Superted. Roedd animeiddio yn llwyddiannus iawn a thyfodd diwydiant i greu pethau yn gysylltiedig â Superted. Roedd yn help mawr i godi statws S4C a Chymru. Ar y cyfan roedd y cymysgedd o raglenni yn ddigon llwyddiannus i basio'r adolygiad yn 1985 ac mae'r sianel wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

Diolch yn fawr iawn i Elain am sgwrs ardderchog. Mwynheuodd pawb y cynnwys ac roedd yn ddiddorol i wybod mwy am y sefyllfa ynglŷn â rhaglenni Cymraeg yn y 1960s/70s, yr her i gael S4C ac i sefydlu'r sianel rhwng 1981 a 1985.

Digwyddiad nesa:


Nos Lun, 13 Rhagfyr ar Zoom am 7 30yh -
Parti Nadolig

Bydd Rhaglen 2022 ar gael ar Facebook yn fuan. Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pos Val



Cliwiau

Ar Draws

- 1) Lwcus
- 2) Daear
- 5) Ystafell cemeg
- 7) Bwyta porfa
- 8) Prennau
- 10) Ambell waith
- 12) Heb olwg
- 13) Llosgi

I Lawr

- 1) Person ffôl
- 2) Hoffter
- 3) Gwerthfawrogi
- 4) Crwn
- 6) Yn fyr o bwyll
- 7) Gŵr neu wraig
- 9) Coffr
- 11) Cysylltu

Dach chi'n gwybod bod ol-rifynnau o'r Wennol ar gael ar fy ngwefan www.gydangilydd.cymru?

Did you know that back-issues of the Wennol are available on my website www.gydangilydd.cymru?

Nesta Humphreys

Hanes Y Gymraeg

Yr 17eg a'r 18fed Ganrif – Rhan 1

gan Martin Jones

Erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, wrth i'r Oes Duduraidd ddod i ben, roedd y Gymraeg wedi

dod yn iaith eilradd yng ngolwg yr uchelwyr a oedd yn fwyfwy yn mabwysiadu arferion ac iaith y dosbarth uchaf yn Lloegr er mwyn "dod ymlaen yn y byd". Ac o ganlyniad i Ddeddf 1536 (Deddf Uno fel y'i gelwir), roedd yr iaith wedi colli ei statws swyddogol hefyd. Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, daeth y proses o Seisnigeiddio'r uchelwyr yn gyflawn, a nawr collodd y Gymraeg ei statws fel iaith y diwylliant uchaf hefyd wrth i'r uchelwyr beidio â noddi urdd y beirdd.

Ond er gwaethaf hyn, parhaodd y mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru i fod yn uniaith Gymraeg, a diolch i gyfieithiad ysblennydd y Beibl i mewn i Gymraeg gan William Morgan (cyhoeddwyd ym 1588) roedden nhw'n clywed y Gymraeg ar ei orau yn eu heglwysy plwyf bod ddydd Sul. Ond roedden nhw am gael rhyw fath o lenyddiaeth hefyd. O ganlyniad, gyda threigl amser, daeth y werin eu hunain yn fwy a mwy cyfrifol am ateb y galw hwn trwy gynhyrchu baledi, anterliwtiau, ac almanaciau. Ac erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, roedd llenyddiaeth gwerin - sy wedi cael ei hystyried hyd yn hyn dim yn werth ei roi ar bapur - yn dechrau cael ei gyhoeddi. Er enghraifft roedd Thomas Jones (argraffwr yn Llundain a symudodd i Amwythig yn 1695) yn cyhoeddi almanac Cymraeg blynyddol o 1679 ymlaen, a dangosodd ei lwyddiant taw nid y rhai cyfoethog yn unig oedd yn llythrennog.

Hyd at 1695, dim ond argraffwyr yn Llundain, Rhydychen, a Chaergrawnt oedd gan yr hawl i gyhoeddi llyfrau. Yn sgil y diddymiad o'r hawl hon, cafodd gweisg argraffu eu sefydlu yng Nghymru, ac yn y ddeunawfed ganrif roedden nhw'n cynhyrchu nifer cynyddol o lyfrau Cymraeg, yn enwedig llyfrau crefyddol.

Ochr yn ochr â'r twf yn y nifer o lyfrau a oedd yn cael eu hargraffu, daeth adfywiad o eisteddfodau (a oedd heb eu cynnal ers 1567), ac roedd almanaciau Thomas Jones yn hysbysebu'r eisteddfodau hyn o 1700 ymlaen. Ar y dechrau, cystadlaethau tafarn swnllyd ac afreolaidd oedden nhw. Ond erbyn diwedd y deunawfed ganrif roedden nhw wedi cael eu trawsffurfio i fod yn fwy tebyg i'r eisteddfod y dyddiau yma. Ym 1819, cafodd seremoni "Gorsedd y Beirdd" ei chyflwyno i'r eisteddfod yng Nghaerfyrddin.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Wrth gwrs, seremoni wedi'i seilio ar gelwydd a chynnyrch dychymyg ffrwythlon Iolo Morgannwg oedd hon - ond serch hynny, cafodd ei derbyn fel seremoni ddilys. Nawr, roedd gan y Cymry sefydliad cenedlaethol a fyddai'n profi'n drysor i'r diwylliant Cymraeg yn wyneb yr heriau i ddod.

Cafodd llythrennedd hwb pwysig yn y deunawfed ganrif gan ysgolion cylchynol Griffith Jones, reithor Llanddowror yn Sir Gaerfyrddin. Wedi'u sefydlu yn y 1730au, cynhelid yr ysgolion hyn am gyfnod o dri mis yn yr un man, yn bennaf yn y gaeaf pan oedd llai o waith i'w wneud yn y ffermydd. Bwriad yr ysgolion oedd dysgu darllen

yr ysgrythurau i ddynion, menywod, a phlant o bob oedran trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhelid ysgolion gyda'r nos hefyd er mwyn y rhai na allai ddod yn ystod oriau gwaith. Ar ôl y tri mis, byddai'r athro'n symud ymlaen i blwyf arall. Roedd y mudiad hwn yn llwyddiannus iawn, ac wedi helpu i wneud y Cymry yn un o'r bobl fwyaf llythrennog yn Ewrop. Mae'n eithaf posib bod y rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru yn llythrennog yn y Gymraeg erbyn diwedd y deunawfed ganrif. Gan mai felly oedd llwyddiant yr ysgolion, tynnodd e sylw Catrin Fawr o Rwsia!



Teithiau Maes mis Rhagfyr 2021

Y De a'r Canolbarth

4/12/21 Moel Penderyn a'r cyffiniau.
Cylchdaith tua 4 milltir o gwmpas Moel Penderyn. Llwybr gweddol serth i fyny ac i lawr y copa. Byddwn yn galw ym mannau hanesyddol Penderyn wrth gerdded.

Man cyfarfod: Canolfan Gymunedol Penderyn ar y brif heol (A4059) drwy'r pentref.

Cod Post agosaf CF44 0SJ SN950079

Arweinydd - Gwyn Morgan 01685 814348

11/12/21 Coedwig Llangyfelach

Cylchdaith tua 6 milltir, dringo yma ac acw (un weddol serth am ¼ milltir, ac un cymedrol am ½ milltir). Llwybrau cadarn ar y mwyaf ond un rhan yn fwdlyd ac yn wlyb. Gadewch yr M4 ar gyffordd 46, dilynwch yr arwyddion am Felindre/Cronfeydd Dwr, i lawr y rhiw, ac ar yr ail gylchfan, cymerwch yr ail allanfa, arwydd Maes Parcio a Rhannu

Cod Post agosaf SA5 7PE SN641000

Arweinydd - Eirian Davies 01792 844821

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Gwynedd a Môn

4/12/21 Adar y Gaeaf yn ardal Malltraeth
(Cofiwch ddod a binoculars/ telescope a dillad cynnes)

Gobeithio gweld amrywiaeth o adar mewn gwahanol gynefinoedd. Llwybrau coedwig, morlyn a chaeau, gwlyb mewn mannau. Tua 3m

Man Cyfarfod: Maes parcio Llyn Parc Mawr, gyferbyn a choedwig Malltraeth. Os prinder parcio, mae yna fwy o le yn y maes parcio dros y ffordd. SH413670

Arweinydd - Ben Stammers
(Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru)
07764897415 07764897415

11/12/21 Ardal Henryd/Rowen

Taith trwy goedwig Parc Mawr heibio Hen Eglwys Llangelynnin ac ar hyd godre Talyfan at gromlech Maen y Bardd Tirwedd Llwybrau coedwig a mynyddig, anwastad ar adegau. Ychydig o ddringo graddol a chamfeydd. 5/6 m Maes parcio Coed Parc Mawr, ar ffordd wledig rhyw ¾ milltir i'r gorllewin o bentref Henryd, **LL32 8EZ SH761744**
Dilys ac Aneurin Phillips 01492 650003

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

18/12/21 Cricieth Hanesyddol

Cylchdaith yn trafod ychydig o hanes a datblygiad y dref. Ffyrdd a phalmentydd. 3m.

Man cyfarfod - Maes parcio Abereistedd, Lôn Fel/West Parade. (Parciwch ar y stryd)

LL52 oEG SH495377

Arweinydd - Hywel Madog

01766530224 07563146145

Y Gogledd Dwyrain

4/12/21 Llandrillo, Edeyrnion

Peth dringo yn y bore i gylch cerrig Moel Ty-uchaf. Lawr i'r Hendwr ag ar y gwastad yn ôl i'r pentre. (yn wahanol i daith Glyn yn yr ardal yn gynharach eleni)

Man Cyfarfod - Maes parcio'r Wern yng nghanol Llandrillo ger Corwen **SJ035372**

R. Glyn Jones 01492 640227

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb!

Pos Val - atebion

Atebion

Ar Draws

- 1) Ffodus
- 3) Tir
- 5) Labordy
- 7) Pori
- 8) Coed
- 10) Weithiau
- 12) Dall
- 13) Tanio

I Lawr

- 1) Ffŵl
- 2) Serch
- 3) Trysori
- 4) Rownd
- 6) Byrbwyll
- 7) Priod
- 9) Cist
- 11) Uno

Geirfa

Gerallt Gymro

Gwirfoddoli – to volunteer

Cytundeb – agreement

Ochri – to side with

Cefnogaeth ariannol – Financial backing

Ymrwymiad – commitment

Cyfrannu – to contribute

Y Wlad Sanctaidd – the Holy Land

Llu(oedd) – army (ies)

Trechu - to beat

Creiriau – artefacts

Uchelgais – ambition

Uniongyrchol – directly

Gwanhau – to weaken

Gwireddu – to fulfil

Ystyfnig – stubborn

Diwygio – reform

Teulu estynedig – extended family

Maen tramgwydd – stumbling stone

Cynorthwyo – to Support

Ymddiswyddo – to retire

Portreadu – to portray

Brawd Mawr

Dychmygol – imaginary

Goruchwyliaeth – supervision

Cylch cyfyng – closed circuit

DU – Deyrnas Unedig (uk)

Ymddygiad – behaviour

Gwrthgymdeithasol – anti-social

Adnabod wyneb – face recognition

Dadleuol – controversial

Lleoliad adloniant- place of entertainment

Dadansoddi – to analyse

Caniatâd – permission

Ymgais – attempt

Priodol – appropriate

Anghenion – needs

Ymwthiol – intrusive

Moesegol - ethical

Y Ferch o Gefn Ydfa

Deunawfed ganrif 18th century

Cyfoethog - rich

Am ddiddordeb - as a matter of interest

Chwyldro - civil war

Töwr -roofer

Cyfreithiwr - lawyer

Addas - suitable

Llythyrau serch - love letters

Morwyn - maid

Darganfod - to discover

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Torcalon - heartbreak
 Cangell - chancel
 Adnabyddus - well known
 Cariad golledig - lost love
 Testun - subject
 Deucanmlwyddiant - 200th anniversary
 Campau - achievements
 Llenyddol - literary
 Hanesyddol - historical
 Croglenn - rood screen
 Denu - to attract
 Pererinion - pilgrims
 Mynachlogydd - monasteries
 Mynwent - graveyard
 Hen draddodiad - old tradition

Robin Goch

Digywilydd - cheeky, shameless
 Ofergoelion - superstitions
 Y Llychlynnaidd - the Norsemen
 Brodorol - native
 Tywysydd ysbryd - spirit guide
 Ymadawedig - deceased
 Hoelen - nail
 Drain - thorn
 Enaid - soul
 Bronrhuddyn - scorched breast (robin)
 Stori'r Geni - the Nativity
 Gwellt - straw
 Brigau mân - twigs
 Adenydd - wings

Iaith Sathredig

Brawddeg - sentence
 Piwritanaidd - puritans
 Annerbyniol - unacceptable
 Er gwaethaf hyn - despite this
 Mewn gwirionedd - in truth
 Ieithyddion - linguists
 Benthig - to borrow
 Ymadroddion - expressions, phrases
 Dealladwy - understandable
 Disodli - replace
 Methiant - failure
 Prin - rare
 Dylanwadu ar - influence

Cyd-destun - context
 Bwriad - intention, purpose
 Llys cyfreithiol - law court
 Addas - appropriate
 Nid oes ots - it doesn't matter
 Esblygu - evolve
 Cenhedlaeth - generation

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Cyfryngau - media
 Cyfathrebu - to communicate
 Ymchwil - research
 Cyfweliadau lluosog - multiple interviews
 Cyfnod - period
 Etholiad cyffredinol - general election
 Ceidwadwyr - Conservatives
 Bygwth - to threaten
 Ymprydio - to fast
 Tro bedol - U turn
 Sefydlu - to establish
 Adnoddau - resources
 Prif Swyddog - chief executive
 Prif heriau - main challenges
 Annibynnol - independant
 Cynhyrchu - to produce
 Animeiddio - animation
 Cysylltiedig â - connected to
 Cymysgedd - mixture
 Adolygiad - review
 O nerth i nerth - from strength to strength

Hanes y Gymraeg

Eilradd - second rate
 Mabwysiadu - adopt
 Fel y'i gelwir - so-called
 Urdd y beirdd - bardic order
 Anterliwtiau - form of short play/drama
 Adfywiad - revival
 Afreolaidd - unruly
 Dilys - authentic
 Llythrennedd - literacy
 Ysgolion cylchynol - circulating schools
 Ysgrythau - scriptures